# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 3 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Mehefin 2023

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13613

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Claire Thomas (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papur i'w nodi

2.1 Cafodd y papur ei nodi.

2.2 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg i dynnu sylw at y materion a godwyd yn y papur i'w nodi rhif 3. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb y Gweinidog ar ôl ei dderbyn. Cytunasant hefyd i sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu hystyried fel rhan o'u hymchwiliadau parhaus i weithredu diwygiadau addysg a mynediad at addysg a gofal plant.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Mudo Anghyfreithlon – trafod yr adroddiad drafft

4.1 Yn amodol ar newidiadau i'w cytuno'n electronig y tu allan i'r cyfarfod Pwyllgor, cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft. Bydd yr adroddiad yn cael ei osod ar 19 Mehefin.

## 5 Briff technegol ar y Bil Addysg Gymraeg

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan swyddogion Llywodraeth Cymru.